

CYNGOR CYMDEITHAS LLANFROTHEN

COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 7 MAWRTH 2016.

CYNLLUN GWELLA Edrychiad IS-ADEILADEDD Y GRID CENEDLAETHOL.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Swyddog o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a gwahoddodd ef i annerch y cyfarfod. Rhoddodd amlinelliad o'r cynllun a hefyd yr amodau oedd ynghlwm ag ef. Yr oedd yn amlwg fod yr amodau yn rhai caeth dros ben ac 'roedd yn amlwg i'r aelodau oedd yn bresennol na ellid meddwl am unrhyw gynlluniau a ellid eu cyflwyno.

Penderfynwyd derbyn na ellid cyflwyno unrhyw gais o fewn yr amodau ond i roddi'r mater ar Raglen y cyfarfod nesaf rhag ofn y byddai'r aelodau absennol ag unrhyw sylwadau i'w cynnig.

COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Ionawr 2016.

AROLWG CYFLYMDRA

Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu mai 31 milltir yr awr oedd cyfartaledd cyflymdra ar y ffordd i mewn i Lanfrothen ger y siop.

Penderfynwyd gofyn beth oedd y cyflymdra uchaf a gofnodwyd.

GWASANAETH BWS O LANFROTHEN I BORTHMADOG

Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu na fu unrhyw gynnydd yn y gost i'r Cyngor o ganlyniad i'r gwasanaeth o Feddgelert I Borthmadog redeg drwy Lanfrothen a hefyd nad oedd dyddiad terfynol i'r gwasanaeth.

Penderfynwyd (a) derbyn y wybodaeth (b) gofyn i Gyngor Gwynedd symud yr arosfan bws i le mwy diogel na'r safle presennol ac awgrymu gwaelod y rhiw wrth yr Hen Eglwys fel man addas (c) gwneud cais i Balfours i wynebu'r llwybr sydd yn arwain i fyny o ffordd cefn Y Ring at yr Hen Efail.

BINIAU HALEN

Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu mai'r gost debygol o lenwi'r biniau halen pan lenwir 3 bin ar y tro fydd £80, ond pan fydd angen llenwi un bin ar y tro bydd y gost yn £156. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

GWASANAETHAU A DDARPERID GAN GYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn rhoddi manylion o nifer o gyfarfodydd oedd i'w cynnal i drafod y mater. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a pheidio anfon cynrychiolydd i'r un o'r cyfarfodydd.

UN LLAIS CYMRU

Cyflwynwyd llythyr Un Llais Cymru yn gwahodd y Cyngor i ail ymaelodi am y flwyddyn 2016/2017. Penderfynwyd ail ymaelodi a thalu'r tâl aelodaeth o £67.00.

HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd llythyr Heddlu Gogledd Cymru yn rhoddi manylion yr Heddlu lleol fel y gall y Cyngor gysylltu â hwy yn ôl yr angen.

GWASANAETH BWS O LANFROTHEN I BENRHYNDEUDRAETH.

Cyflwynwyd copi o lythyr Lindsay Haveland y swyddog sy'n hyrwyddo cais i ddarparu bws cymunedol i'r ardal. Penderfynwyd ei dderbyn.

CAIS AM WASANAETH POST SYMUDOL I LANFROTHEN

Adroddodd y Clarc iddo dderbyn galwad ffôn yn hysbysu bod y swyddogion yn ceisio eu gorau i ad-drefnu rhaglen ymweld â phentrefi ond fod yn rhaid goresgyn rhai problemau yn gyntaf cyn y gellid newid y rhaglen bresennol. Penderfynwyd ysgrifennu unwaith eto a gofyn am adroddiad ysgrifenedig.

TORI COED YN Y FYNWENT

Cyflwynwyd pris M Pearson am dorri rhai o'r coed yn y fynwent. Y pris oedd £500 am y rhan ger y beddi, £500 am y gweddill o'r coed yn rhan isaf y fynwent a £500 am y coed ar y ffordd. Penderfynwyd derbyn y pris o £1000 am y ddwy ran yng ngwaelod y fynwent a gohirio penderfynu am y rhai ar y ffordd.

WAL WEDI DYMCHWEL YN Y FYNWENT

Adroddwyd fod wal wedi dymchwel heb fod yn bell o giât y fynwent. Cyflwynwyd pris o £250 gan Ifan Williams am ail godi'r wal. Penderfynwyd derbyn y pris.

Y WE

Cyflwynwyd adroddiad y Clarc fod y Cyngor wedi cynnig tâl o £20 i Marian Roberts am roddi cofnodion a rhaglen y Cyngor ar y We. Penderfynwyd aros am ei hymateb terfynol.

BILIAU

Penderfynwyd talu'r biliau canlynol :-

Norman Kerr - £380 a £480

K Williams - £503.38

Scottish Power - £22.35.

TELERAU'R CLARC

Penderfynwyd fod y costau i'w godi o £200 y flwyddyn o 1Ebrill 2016 ac i'w ddosrannu fel a ganlyn :- £100 at gostau rhent ffôn a £100 am wasanaeth y peiriant llungopïo.

CEISIADAU CYNLLUNIO

Adroddwyd nad oedd unrhyw geisiadau i law.

LLYTHYR MARIAN ROBERTS

Cyflwynwyd llythyr Marian Roberts yn cyfeirio at y materion canlynol:-

- a) Carffosiaeth Morfa Gaseg - yr oedd y sefyllfa yn ddifrifol ynglŷn â gorlifant carffosiaeth ar yr ystâd ac roedd gwir angen gweithredu ar frys er ceisio goresgyn y broblem. Cafwyd manylion o'r dyddiadau pryd y bu i swyddogion Dwr Cymru ymweld â'r ystâd i ymdrin ag achosion o orlifant. Penderfynwyd gwneud cais i Dwr Cymru am gyfarfod ar y safle cyd rhwng Swyddogion Dwr Cymru a chynrychiolaeth o'r Cyngor a'r trigolion.
- b) Arosfa Bws - Yr oedd yr arosfan presennol ger Y Ring yn hollol anfoddhaol oherwydd diffyg palmant a chulni'r ffordd. Awgrymai safle cyfochrog a'r Hen Eglwys lle'r oedd palmant arni'n barod. Penderfynwyd gwneud cais i Gyngor Gwynedd symud yr arosfan bws i'r safle a nodwyd.
- c) Defaid yn crwydro - Adroddai fod defaid yn crwydro ar y ffordd yn y pentref gan achosi perygl i drafnidiaeth a cherddwyr. Penderfynwyd dwyn y mater i sylw Alun Lewis, Tŷ Newydd Morfa a gofyn iddo gymryd camau i gadw defaid o fewn y terfynau.